# Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd

## 2014 – 2016

*"Sicrhau bod arweinwyr addysg yn cydweithio ar bob lefel o fewn system hunanwella, lle mae pawb yn helpu ac yn herio ei gilydd er mwyn codi safonau yn ein holl ysgolion."*

Cymwys am Oes - LlC - mis Hydref 2014

Rhan 1: Cefndir a chyd-destun
Rhan 2: Blaenoriaethau gweithredu
Rhan 3: Data perfformiad
Rhan 4: Cynllun gweithredu

# Rhan 1: Cefndir a chyd-destun

Mae codi safonau llythrennedd a rhifedd ar frig agenda gwelliant Llywodraeth Cymru. Yn y ddogfen "Gwella Ysgolion" (2012) fe nodir y gwaelodlin, ac nid yw'r dasg yn un hawdd nac yn un y gellir ei chyflawni dros nos. Bydd angen ymdrechion parhaus gan nifer o bartneriaid allweddol i gyrraedd y nod. Yn y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol (2012) noda Llywodraeth Cymru na all:

**" . . . godi safonau llythrennedd ar ei phen ei hun. Bydd safonau llythrennedd yn gwella dim ond os oes ymrwymiad gan gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid, athrawon a staff cymorth."**

Ac yn y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol (2012) mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld:

**" . . y bydd y Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn hyrwyddo mwy o gydweithredu o fewn ac ar draws awdurdodau lleol, rhannu arferion gorau, datblygiad a chyfleoedd. Mae gan ysgolion unigol, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol a chonsortia i gyd eu rhan i'w chwarae.."**

Mae GwE wedi ymroi'n llwyr i chwarae rhan lawn, ochr yn ochr â'i bartneriaid, i gyflawni gofynion y Gweinidog o fewn yr amserlen osodedig.

Mae'r hyn sydd angen ei wneud yn eglur iawn. Gosododd Lywodraeth Cymru'r nodau yn y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, sef:

- **Gwella addysgu sgiliau rhifedd a llythrennedd ar draws y pynciau ac mewn ystod o gyd-destunau.**
- **Adnabod dysgwyr yr ystyrir eu bod ar ei hôl hi o'u cymharu â'u cyfoedion a'u cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial.**
- **Cynyddu'r her ar gyfer ein dysgwyr mwy abl a thalentog.**
- **Lleihau'r amrywiad mewn perfformiad ac mewn arfer ar draws Cymru**

Yn ei adroddiad, "Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y dyfodol" (Ionawr 2013), mae Robert Hill yn ategu'r ffocws ar ansawdd addysgu trwy nodi:

**“Yr unig ffordd o wella safonau cyflawni ysgolion Cymru yw gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ansawdd yr addysgu sy'n cael y dylanwad cryfaf ar gyflawniad disgyblion o fewn yr ysgol.”**

Ar hyn o bryd mae yna lawer o le i wella. Dywed Estyn fod angen ymweliad dilynol ar oddeutu hanner yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd ar ôl arolygiad. Mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi wedi sôn am broblemau sylweddol o ran ysgrifennu, ffoneg ac ansawdd addysgu'r Gymraeg. Mae angen codi safonau rhifedd mewn tua chwarter yr ysgolion cynradd ac mae'r cynllunio ar gyfer dilyniant mewn sgiliau mathemategol yn wan mewn hanner yr ysgolion uwchradd.

Mae adroddiad Hill yn rhoi arweiniad clir o ran sut i gyflawni hyn.

Yn y lle cyntaf:

**“Rhaid i ysgolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wella eu hunain a meithrin diwylliant o ystafelloedd dosbarth agored lle y gall athrawon arsylwi a dysgu o arferion ei gilydd, a bod hynny'n rhan o'r patrwm arferol. Ni ddylai rôl arweinwyr ysgolion ganolbwyntio ar gyfarfodydd a gweinyddu ond ar roi cyfarwyddyd a chefnogaeth ar gyfer gwella yn yr ystafell ddosbarth.”**

Rhaid, felly, i unrhyw raglen gefnogi i wella safonau llythrennedd a rhifedd fod yn rhan o newid diwylliant llawer ehangach; ni ellir ei hystyried ar ei phen ei hun. Gan hynny, mae strategaeth GwE ar gyfer datblygu cefnogaeth ysgol-i-ysgol ynghyd â’r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth yn rhan annatod o’i strategaeth Llythrennedd a Rhifedd.

Yn ail:

**“Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol gael eu seilio fwyfwy ar goetsio sy'n gwella'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach nag ar anfon pobl ar gyrsiau hyfforddi. Dylai cydweithio rhwng ysgolion ddod yn norm lle bydd ysgolion ac athrawon yn cydweithredu i rannu cynllunio gwersi, astudio gwersi, dilyn troeon dysgu a defnyddio dulliau ymchwil weithredol eraill.”**

Rhaid, felly, wrth ddealltwriaeth dda o’r arferion gorau ym maes llythrennedd a rhifedd fel y gellir eu hadnabod a’u defnyddio, yn ogystal â’r gallu i ddatblygu’r ymarferwyr yma i fentora eraill yn effeithiol. Gan hynny, mae athrawon rhagorol/neilltuol llythrennedd a rhifedd yn greiddiol i strategaeth llythrennedd a rhifedd GwE.

Ac yn drydydd:

**“Gwelir y datblygiad proffesiynol gorau wrth i ymarferwyr rannu eu harferion. Mae hyfforddi allanol yn fwy tebygol o lawer o fod yn effeithiol os yw’n gysylltiedig â chynllunio gwersi ar y cyd, astudio gwersi ar y cyd, mynd ar droeon dysgu ar y cyd, arsylwi a gwerthuso gwersi gan gymheiriaid, coetsio a chael eich coetsio, neu gymryd rhan mewn cymuned dysgu broffesiynol. Mewn geiriau eraill, mae’r pwyslais ar roi’r dysgu ar waith a gwella'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddelfrydol, mae'r cyd-ddysgu’n digwydd ar draws ysgolion yn ogystal ag o'u mewn.”**

Rhaid, felly, darparu cyfleodd i arweinwyr, athrawon a chymorthyddion i rannu’r arferion mwyaf effeithiol trwy gydweithio, cydwerthuso a chydymchwilio. Gan hynny bydd datblygu partneriaethau a rhwydweithiau yn sylfaen i’r strategaeth hon.

Bydd argymhellion adroddiad Hill yn sail i’r gwaith, sef:

- Teilwra hyfforddiant i gwrdd ag anghenion pob ysgol a’i seilio ar wella cynlluniau gwersi, ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac asesu ffurfiannol – yn enwedig ar roi adborth effeithiol.

- Defnyddio cynlluniau gwaith o ansawdd da gan ysgolion ardderchog i helpu ysgolion gwannach i gynllunio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'i roi ar waith.

- Annog, arfogi a grymuso athrawon i gynllunio gwersi gyda'i gilydd, i arsylwi arferion ei gilydd ac asesu mewn ffordd ddisgybledig pa ddylanwad a gaiff dulliau addysgu a dysgu arloesol.

- Sicrhau bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd yn canolbwyntio ar wella'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys dulliau addysgu effeithiol ar gyfer ffoneg, cynlluniau gwella darllen, sgiliau ysgrifennu a rhifedd a bod y ddarpariaeth yn cael ei chydlynu'n glos rhwng GwE a’r RhGG.

- Gofalu bod system dracio safonol ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar lefel disgybl sydd yn galluogi ysgolion i ofalu bod pob un yn cyrraedd ei lawn botensial.

- Sicrhau bod y rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol yn cael eu defnyddio'n helaeth.

- Sicrhau bod ystod ddigonol o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg ar gael a fydd yn gymorth i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith ar draws y cwricwlwm.

**Cynllun Busnes GwE**

Mae Cynllun Busnes GwE 2015-18 yn amlinellu'r gweithredu, yr amserlen a'r deilliannau ar gyfer ein blaenoriaethau allweddol sydd yn cynnwys:

- Codi safonau dysgu ac addysgu i bob dysgwr ar draws y rhanbarth, yn gyson ar draws pob cyfnod
- Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i heffaith
- Datblygu system ysgol sy'n hunan wella
- Gwella gweithdrefnau mewnol i sicrhau gwasanaeth herio a chefnogi effeithiol a chyson ar draws y rhanbarth

Bydd Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd yn cydlynu ac yn arwain y gwaith hwn er mwyn:

- Cefnogi gwaith yr Ymgynghorwyr Her trwy gynnal sesiynau rheolaidd efo grŵp ffocws ohonynt er mwyn rhannu gwybodaeth am ddull gweithredu, hyfforddiant a chynnydd ysgolion.

- Datblygu arweinyddiaeth ym maes llythrennedd a rhifedd trwy:
  - Ddarparu hyfforddiant tymhorol i arweinwyr llythrennedd a rhifedd ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, fydd yn cynnig cyfuniad o ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a gwybodaeth pwnc-benodol
  - Darparu pecynnau o hyfforddiant gellid eu defnyddio i uwchsgilio athrawon a chymorthyddion eu hysgolion
  - Rannu'r arferion mwyaf effeithiol ar draws y rhanbarth trwy gyfrwng cyfarfodydd rhwydweithio a'r wefan
  - Mentora arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion coch/oren

- Cynnig cefnogaeth ddwys i ysgolion oren a choch, trwy gydweithio efo'r arweinydd llythrennedd/rhifedd i hyfforddi athrawon a chymorthyddion, cynghori ar adnoddau a strategaethau effeithiol, a monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau gwelliant.

# Rhan 2: Blaenoriaethau gweithredu 2015 - 16

1. Datblygu system o ysgolion sydd yn hunan-wella trwy:

   - Ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, i sicrhau rheolaeth ac arweiniad effeithiol ar lefel ysgol
   - Sicrhau rhannu'r arferion gorau ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol

2. Darparu cefnogaeth ddwys i ysgolion penodol sydd angen hynny trwy:

   - Gydweithio'n agos gydag Ymgynghorwyr Her er mwyn sicrhau lefel briodol o her i arweinwyr ysgolion am safonau a darpariaeth llythrennedd a rhifedd
   - Fentora arweinwyr llythrennedd a rhifedd yr ysgolion hynny
   - Archwilio'r gydberthynas rhwng asesiad athro a chanlyniadau'r profion darllen a rhif cenedlaethol er mwyn gallu targedu cefnogaeth yn fwy effeithiol

***Blaenoriaeth 1 – Datblygu system o ysgolion sydd yn hunan-wella***

*Beth fydd GwE a'r Awdurdodau Lleol yn ei wneud:*

- Gofalu bod gan bob arweinydd llythrennedd a rhifedd ddealltwriaeth gadarn o berfformiad eu hysgol ym maes llythrennedd a rhifedd, a bod ganddynt wybodaeth dda o'r hyn a olygir gan addysgu rhagorol yng nghyd-destun llythrennedd a rhifedd.
- Sicrhau bod codi safonau a gwella darpariaeth llythrennedd a rhifedd yn rhan greiddiol o gynllun gwella pob ysgol yn y rhanbarth, a bod hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr a manwl o ddata perfformiad yr ysgol, gan gynnwys data'r profion cenedlaethol.
- Monitro defnydd yr ysgol o'u holl gyllid, yn enwedig eu GGA, i ymateb yn effeithiol i'w blaenoriaethau gweithredu.
- Gofalu bod gan bob Corff Llywodraethol y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i herio perfformiad ysgolion, ac ymyrryd pan na fydd hyn yn digwydd yn effeithiol.
- Sicrhau bod arweinwyr ysgolion ac Ymgynghorwyr Her yn gwybod sut i frocera cefnogaeth allanol ychwanegol ble bo hynny'n briodol.
- Gofalu bod systemau tracio ysgolion yn olrhain cynnydd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd, bod dysgwyr ag ADY a rhai MATh yn cael eu hadnabod yn fuan a rhaglenni priodol yn cael eu darparu ar eu cyfer.
- Hyrwyddo rhwydweithiau o ysgolion sydd yn rhannu blaenoriaethau gwella tebyg, gan ddarparu mewnbwn arbenigol ble bo angen.
- Darparu pecynnau o hyfforddiant i arweinwyr llythrennedd a rhifedd ysgolion eu defnyddio i uwchsgilio athrawon a chymorthyddion eu hysgolion.
- Adnabod ysgolion cyd-arweiniol llythrennedd a rhifedd fydd yn rhannu eu harferion mwyaf effeithiol trwy gyfrwng mewnbwn i hyfforddiant/cyfarfodydd rhwydweithiau yn ogystal â chyfrannu at y wefan.
- Trwy gyfrwng cyfarfodydd rhwydweithio a chynadleddau rhanbarthol, gofalu bod gan ysgolion y rhanbarth fynediad at yr arferion gorau o'r 3 rhanbarth arall, yn ogystal â hwyluso mynediad i ysgolion ERW, EAS a CSC at arferion gorau ysgolion GwE.

*Beth fydd ysgolion yn ei wneud:*

- Gofalu bod yna strategaeth ysgol gyfan ar gyfer llythrennedd a rhifedd ac unigolyn cymwys wedi ei h/adnabod i arwain. Gwneud defnydd priodol o brosesau RhP i ddatblygu sgiliau'r unigolion hyn.
- Cwblhau dadansoddiad manwl o ddata perfformiad llythrennedd a rhifedd yr ysgol, gan ddefnyddio hyn fel rhan o'u hunanarfarniad ac i bennu blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gwella'r ysgol.
- Trwy'r dadansoddiad uchod, adnabod unrhyw feysydd cyffredin i'w datblygu, a gofalu bod cyfleodd addas yn cael eu darparu i wella sgiliau athrawon a staff cynorthwyol yn y meysydd hyn.
- Defnyddio data perfformiad ar lefel dysgwyr unigol i dargedu cymorth ychwanegol a chyflwyno ymyraethau addas.
- Bod â gwybodaeth gyson a chyfoes o arferion o fewn yr ysgol trwy weithredu systemau monitro effeithiol. Defnyddio'r broses RhP i gefnogi staff ac i ofalu bod ansawdd yr addysgu o fewn yr ysgol yn dda neu well.
- Rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau ac arweiniad a gyhoeddir gan LC ar faterion yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd, a rhannu'r prif negeseuon â' r holl staff.
- Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o systemau tracio i olrhain cynnydd pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr PYD, ac ymateb yn brydlon ac yn briodol i unrhyw achos o danberfformio.
- Bod yn barod i rannu arferion ag ysgolion eraill o fewn y rhanbarth.
- Gofalu bod trefniadau trosglwyddo effeithiol mewn lle ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo o un cyfnod allweddol i'r nesaf, gan osgoi unrhyw ostyngiad mewn cyflawniad grwpiau o ddysgwyr.
- Mewn ysgolion uwchradd, sicrhau darpariaeth gydlynus o ran llythrennedd a rhifedd, a chydweithrediad agos rhwng y cydlynydd/arweinydd llythrennedd â phennaeth adran y Gymraeg a'r Saesneg, a'r cydlynydd/arweinydd rhifedd â phennaeth yr adran Fathemateg.

***Blaenoriaeth 2 – Darparu cefnogaeth ddwys i ysgolion penodol sydd angen hynny***

*Beth fydd GwE a'r Awdurdodau Lleol yn ei wneud:*

- Sicrhau bod yna un cynllun gwella ar gyfer yr ysgolion yma, fydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd, a bod anghenion cefnogaeth yr ysgolion o ran llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg yn cael eu hadnabod o fewn y ddogfen hon.
- Gofalu bod y cyfathrebu mewnol o fewn GwE, a rhwng GwE a'r ALl, yn fwy effeithiol, fel bod y wybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg yn cael ei rannu.
- Darparu a threfnu hyfforddiant wedi'i dargedu'n briodol at anghenion ysgolion, a fydd wedi'i adnabod trwy ymweliadau'r Ymgynghorwyr Her. Gofalu bod dilyniant i'r hyfforddiant hwn i athrawon unigol ar lawr y dosbarth ble bo angen.
- Trwy'r Partneriaid Cynorthwyol, mentora arweinwyr llythrennedd a rhifedd ac athrawon unigol mewn rhai achosion, trwy fodelu'r arferion addysgu gorau ar lawr y dosbarth.
- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o argymhellion Estyn mewn adroddiadau cenedlaethol ar lythrennedd a rhifedd a'u bod yn ymateb iddynt.
- Hwyluso rhwydweithiau rhanbarthol ac isranbarthol fel bo'r wybodaeth ddiweddaraf a'r arferion gorau yn lleol, yn genedlaethol ac y rhyngwladol yn cael eu rhannu'n effeithiol.
- Sicrhau mynediad at gefnogaeth gan ysgol gyd-arweiniol ym maes llythrennedd a rhifedd ble bo'n addas.
- Yn ystod eu hymweliadau monitro, gofalu bod Ymgynghorwyr Her yn rhoi ffocws priodol ar addysgu llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg rhagorol, gan gynnig argymhellion a fydd yn arwain at welliant., ac yn monitro cynnydd yr ysgol yn briodol.

*Beth fydd ysgolion yn ei wneud:*

- Trwy gydweithio efo GwE a'r ysgolion cyd-arweiniol, datblygu dealltwriaeth dda a chyfoes o'r hyn a olygir gan addysgu rhagorol ym maes llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg. Trwy brosesau monitro rheolaidd, gwybod ble mae'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol.
- Rhannu'r arferion gorau o fewn yr ysgol, gan ddileu unrhyw achosion o anghysondeb o ran safon yr addysgu.
- Bod ag ystod o ymyriadau addas ar gael i fodloni anghenion penodol dysgwyr ag ADY, gan gynnwys rhai MATh. Sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant i gyflwyno'r rhaglenni ymyriad fel bod dysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posibl, a bod yr unigolion sy'n gwneud y gwaith hwn yn derbyn cefnogaeth barhaus gan reolwr llinell sydd â dealltwriaeth lawn o ofynion y rhaglenni.
- Sicrhau bod athrawon a chymorthyddion dosbarth yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau gorau sydd ar gael i ddatblygu llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg, ac yn gwneud defnydd effeithiol o wefan GwE ac eraill.
- Sicrhau bod gwersi yn bodloni anghenion pob dysgwr unigol - bod y rhai MATh yn derbyn her ddigonol i ddatblygu uwch-sgiliau, yn ogystal â'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd addas i'w gallu.

# Rhan 3: Data perfformiad

**Table 2: National Reading Test results, by LA and result, 2015**

Note: Results have been standardised separately for the English and Welsh versions of the National Reading Test and should not be compared to assess the reading ability of pupils.

| | National Reading Test - English | | | | | | National Reading Test - Welsh | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Less than 85 | Between 85 and 115 | Greater than 115 | | Disapplied | Absent during test window | Less than 85 | Between 85 and 115 | Greater than 115 | |
| Local Authority | % | % | % | % | % | Cohort | % | % | % | % | % | Cohort |
| Isle of Anglesey | 1.5 | 1.6 | 11.9 | 70.1 | 14.9 | 4,401 | 1.4 | 1.0 | 18.0 | 64.4 | 15.1 | 3,791 |
| Gwynedd | 1.4 | 1.2 | 12.7 | 68.9 | 15.7 | 7,310 | 1.1 | 0.9 | 12.5 | 65.8 | 19.8 | 9,137 |
| Conwy | 0.5 | 1.2 | 13.2 | 67.7 | 17.4 | 8,206 | 0.2 | 2.7 | 15.1 | 66.2 | 15.8 | 1,950 |
| Denbighshire | 1.8 | 1.9 | 13.7 | 68.4 | 14.2 | 8,351 | 0.5 | 1.1 | 10.3 | 68.9 | 19.2 | 1,999 |
| Flintshire | 1.0 | 1.5 | 12.3 | 68.4 | 16.8 | 13,300 | 0.3 | 0.4 | 12.7 | 71.4 | 15.3 | 747 |
| Wrexham | 2.0 | 1.9 | 14.4 | 66.7 | 15.0 | 10,997 | 0.2 | 1.3 | 18.3 | 69.2 | 10.9 | 1,235 |
| Powys | 2.0 | 0.8 | 10.7 | 66.5 | 20.1 | 10,031 | 0.5 | 0.5 | 10.8 | 69.3 | 18.9 | 1,692 |
| Ceredigion | 1.7 | 0.7 | 11.3 | 68.0 | 18.2 | 4,276 | 1.4 | 0.6 | 14.3 | 66.6 | 17.1 | 3,754 |
| Pembrokeshire | 2.0 | 1.3 | 11.8 | 66.6 | 18.3 | 9,423 | 0.5 | 0.6 | 15.9 | 68.0 | 15.1 | 1,776 |
| Carmarthenshire | 1.6 | 0.9 | 12.3 | 68.2 | 16.9 | 13,269 | 1.1 | 0.7 | 14.0 | 66.1 | 18.2 | 7,760 |
| Swansea | 2.2 | 0.9 | 11.4 | 66.9 | 18.7 | 19,308 | 0.2 | 1.4 | 13.6 | 70.8 | 14.0 | 2,477 |
| Neath Port Talbot | 1.7 | 1.3 | 14.2 | 68.4 | 14.3 | 11,453 | 0.1 | 0.4 | 12.2 | 72.0 | 15.2 | 1,799 |
| Bridgend | 1.9 | 1.2 | 12.5 | 68.0 | 16.5 | 12,197 | 0.7 | 0.2 | 14.8 | 71.3 | 12.9 | 959 |
| The Vale of Glamorgan | 1.2 | 0.9 | 9.6 | 65.1 | 23.2 | 11,520 | 0.0 | 0.4 | 7.0 | 69.2 | 23.3 | 1,369 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.0 | 1.3 | 15.1 | 68.5 | 13.1 | 20,151 | 0.2 | 1.1 | 15.7 | 71.8 | 11.2 | 4,088 |
| Merthyr Tydfil | 2.3 | 1.2 | 15.7 | 67.9 | 12.9 | 4,983 | 0.0 | 1.6 | 14.1 | 72.3 | 12.0 | 383 |
| Caerphilly | 0.8 | 1.1 | 16.4 | 67.6 | 14.1 | 15,514 | 0.2 | 0.9 | 17.7 | 69.3 | 11.9 | 2,395 |
| Blaenau Gwent | 2.3 | 1.6 | 19.0 | 67.8 | 9.3 | 5,428 | 0.0 | 2.4 | 40.0 | 54.1 | 3.5 | 170 |
| Torfaen | 1.2 | 1.7 | 15.3 | 67.4 | 14.5 | 8,222 | 0.0 | 0.9 | 16.0 | 70.4 | 12.6 | 967 |
| Monmouthshire | 1.7 | 0.8 | 8.9 | 63.8 | 24.9 | 6,694 | 0.5 | 0.9 | 9.5 | 60.7 | 28.4 | 211 |
| Newport | 1.9 | 1.5 | 14.9 | 66.6 | 15.1 | 13,512 | 0.8 | 0.8 | 18.9 | 70.5 | 9.0 | 376 |
| Cardiff | 1.6 | 1.2 | 13.9 | 64.8 | 18.4 | 27,938 | 0.5 | 0.5 | 8.7 | 64.6 | 25.8 | 4,133 |
| **Wales** | **1.8** | **1.3** | **13.4** | **67.0** | **16.6** | **247,597** | 0.7 | 0.9 | **13.8** | **67.5** | **17.1** | **53,187** |

**Table 3: National Reading Test - English: progress measure, by LA, 2013 to 2015 (a) (b)**

| | 2013 | | | | | 2014 | | | | | 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average |
| Local Authority | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Isle of Anglesey | 1.6 | 1.4 | 13.6 | 64.4 | 19.1 | 1.5 | 1.8 | 16.0 | 62.1 | 18.6 | 1.5 | 1.6 | 11.8 | 70.0 | 15.1 |
| Gwynedd | 1.4 | 1.1 | 17.8 | 63.9 | 15.8 | 1.7 | 1.1 | 16.6 | 62.2 | 18.5 | 1.4 | 1.2 | 12.7 | 68.5 | 16.1 |
| Conwy | 1.2 | 1.2 | 18.6 | 63.9 | 15.1 | 1.5 | 1.4 | 17.2 | 63.4 | 16.4 | 0.5 | 1.2 | 13.5 | 67.7 | 17.1 |
| Denbighshire | 2.8 | 0.9 | 16.2 | 64.5 | 15.7 | 2.1 | 1.9 | 17.1 | 63.3 | 15.5 | 1.8 | 1.9 | 13.6 | 68.1 | 14.5 |
| Flintshire | 1.2 | 1.7 | 17.5 | 63.5 | 16.1 | 1.1 | 2.0 | 17.3 | 62.5 | 17.2 | 1.0 | 1.5 | 12.2 | 68.9 | 16.4 |
| Wrexham | 2.9 | 2.4 | 17.1 | 62.0 | 15.5 | 2.2 | 1.8 | 18.7 | 61.6 | 15.8 | 2.0 | 1.9 | 14.2 | 67.6 | 14.3 |
| Powys | 1.4 | 0.9 | 14.6 | 63.3 | 19.9 | 2.0 | 0.8 | 14.0 | 61.9 | 21.2 | 2.0 | 0.8 | 10.7 | 66.6 | 20.0 |
| Ceredigion | 1.4 | 0.8 | 15.0 | 62.5 | 20.3 | 2.0 | 1.1 | 13.2 | 61.2 | 22.4 | 1.7 | 0.7 | 11.2 | 68.1 | 18.2 |
| Pembrokeshire | 1.5 | 1.3 | 16.6 | 62.2 | 18.4 | 1.5 | 1.7 | 15.4 | 61.9 | 19.5 | 2.0 | 1.3 | 11.8 | 66.8 | 18.0 |
| Carmarthenshire | 1.5 | 1.6 | 17.1 | 64.0 | 15.8 | 1.9 | 1.8 | 16.3 | 62.1 | 17.9 | 1.6 | 0.9 | 12.7 | 67.8 | 17.0 |
| Swansea | 2.6 | 1.4 | 16.3 | 63.0 | 16.7 | 2.1 | 1.7 | 15.3 | 62.5 | 18.3 | 2.2 | 0.9 | 11.4 | 67.2 | 18.4 |
| Neath Port Talbot | 2.1 | 1.3 | 19.3 | 64.2 | 13.1 | 1.9 | 2.1 | 18.2 | 63.0 | 14.7 | 1.7 | 1.3 | 14.4 | 68.3 | 14.2 |
| Bridgend | 2.3 | 1.8 | 16.5 | 63.7 | 15.7 | 2.2 | 1.4 | 16.8 | 62.9 | 16.7 | 1.9 | 1.2 | 12.4 | 68.3 | 16.3 |
| The Vale of Glamorga | 1.3 | 1.4 | 13.5 | 62.0 | 21.8 | 1.4 | 1.3 | 13.3 | 61.2 | 22.9 | 1.2 | 0.9 | 9.6 | 65.7 | 22.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.0 | 1.5 | 19.9 | 62.5 | 14.1 | 2.1 | 1.6 | 20.6 | 62.6 | 13.2 | 2.0 | 1.3 | 15.3 | 68.5 | 12.9 |
| Merthyr Tydfil | 2.0 | 0.8 | 23.0 | 62.2 | 12.0 | 2.0 | 1.5 | 21.7 | 62.5 | 12.3 | 2.3 | 1.2 | 15.5 | 68.5 | 12.5 |
| Caerphilly | 0.8 | 1.6 | 22.0 | 62.4 | 13.3 | 1.0 | 1.3 | 22.4 | 62.0 | 13.2 | 0.8 | 1.1 | 16.6 | 67.6 | 14.0 |
| Blaenau Gwent | 1.7 | 2.2 | 23.3 | 62.8 | 10.1 | 1.5 | 1.8 | 24.9 | 61.3 | 10.5 | 2.3 | 1.6 | 19.6 | 67.4 | 9.2 |
| Torfaen | 1.0 | 2.0 | 20.3 | 63.4 | 13.3 | 1.0 | 2.5 | 19.7 | 62.4 | 14.4 | 1.2 | 1.7 | 15.7 | 67.3 | 14.1 |
| Monmouthshire | 1.1 | 1.0 | 12.2 | 62.0 | 23.8 | 1.2 | 0.6 | 13.1 | 61.3 | 23.8 | 1.7 | 0.8 | 8.9 | 64.3 | 24.4 |
| Newport | 2.5 | 1.7 | 17.7 | 61.9 | 16.3 | 2.0 | 2.1 | 18.7 | 61.5 | 15.7 | 1.9 | 1.5 | 15.0 | 66.8 | 14.8 |
| Cardiff | 1.5 | 1.5 | 18.9 | 60.7 | 17.4 | 1.7 | 1.7 | 17.8 | 60.2 | 18.6 | 1.6 | 1.2 | 14.0 | 65.1 | 18.0 |
| **Wales** | **1.9** | **1.5** | **17.8** | **62.6** | **16.2** | **1.9** | **1.6** | **17.7** | **61.8** | **17.0** | **1.8** | **1.3** | **13.5** | **67.1** | **16.3** |

(a) Does not include optional English reading test results for pupils in year 3 studying Welsh first language.
(b) Each test will generally reflect a similar distribution of standardised scores within the set ranges. However, due to the range of marks available and the nature of the tests, results may not present a normal distribution. The data should be used to compare the relative performance of local authorities across years rather than to assess overall performance against a particular indicator.

**Table 4: National Reading Test - Welsh: progress measure, by LA, 2013 to 2015 (a)**

| | 2013 | | | | | 2014 | | | | | 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average |
| Local Authority | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Isle of Anglesey | 1.7 | 1.0 | 17.9 | 64.7 | 14.8 | 1.2 | 1.5 | 21.0 | 62.5 | 13.8 | 1.4 | 1.0 | 18.3 | 65.2 | 14.1 |
| Gwynedd | 1.5 | 1.6 | 15.0 | 65.7 | 16.1 | 1.3 | 0.7 | 16.3 | 64.0 | 17.8 | 1.1 | 0.9 | 12.6 | 66.5 | 18.9 |
| Conwy | 0.3 | 1.3 | 19.5 | 67.2 | 11.8 | 1.3 | 0.5 | 18.4 | 64.0 | 15.9 | 0.2 | 2.7 | 15.2 | 67.1 | 14.8 |
| Denbighshire | 1.0 | 0.4 | 13.6 | 69.9 | 15.2 | 0.8 | 1.3 | 14.4 | 66.4 | 17.1 | 0.5 | 1.1 | 10.4 | 69.8 | 18.3 |
| Flintshire | 1.1 | 0.3 | 20.7 | 63.3 | 14.7 | - | 0.7 | 19.4 | 68.3 | 11.6 | 0.3 | 0.4 | 13.1 | 72.4 | 13.8 |
| Wrexham | 1.3 | 1.5 | 22.6 | 66.4 | 8.3 | 0.2 | 1.0 | 23.3 | 62.4 | 13.1 | 0.2 | 1.3 | 19.2 | 68.8 | 10.4 |
| Powys | 0.4 | 0.8 | 15.1 | 68.3 | 15.4 | 0.9 | 0.6 | 16.1 | 65.9 | 16.5 | 0.5 | 0.5 | 10.6 | 70.3 | 18.0 |
| Ceredigion | 1.0 | 0.5 | 18.4 | 65.1 | 15.0 | 2.0 | 1.0 | 16.5 | 63.8 | 16.7 | 1.4 | 0.6 | 14.4 | 66.6 | 16.9 |
| Pembrokeshire | 0.7 | 0.3 | 19.4 | 66.0 | 13.4 | 0.8 | 0.6 | 17.1 | 66.8 | 14.7 | 0.5 | 0.6 | 15.7 | 69.1 | 14.2 |
| Carmarthenshire | 1.2 | 1.6 | 18.9 | 65.8 | 12.5 | 1.3 | 1.3 | 17.8 | 64.8 | 14.8 | 1.1 | 0.7 | 14.1 | 66.6 | 17.5 |
| Swansea | - | 1.9 | 20.8 | 67.4 | 9.9 | 0.2 | 1.4 | 19.1 | 66.0 | 13.3 | 0.2 | 1.4 | 13.4 | 71.4 | 13.6 |
| Neath Port Talbot | 0.4 | 1.6 | 23.5 | 65.1 | 9.6 | 0.5 | 1.0 | 19.2 | 66.8 | 12.6 | 0.1 | 0.4 | 12.3 | 72.9 | 14.2 |
| Bridgend | 0.3 | 1.1 | 21.3 | 68.1 | 9.1 | - | 1.3 | 22.5 | 65.0 | 11.2 | 0.7 | 0.2 | 15.0 | 71.4 | 12.6 |
| The Vale of Glamorga | - | 1.3 | 11.3 | 70.2 | 17.2 | 0.1 | 0.7 | 10.8 | 66.9 | 21.6 | - | 0.4 | 6.9 | 69.6 | 23.1 |
| Rhondda Cynon Taf | 0.4 | 1.4 | 21.8 | 67.4 | 9.0 | 0.3 | 1.8 | 24.6 | 64.3 | 9.0 | 0.2 | 1.1 | 16.1 | 71.6 | 11.0 |
| Merthyr Tydfil | - | 1.2 | 14.5 | 73.0 | 11.2 | - | 1.6 | 14.6 | 71.4 | 12.4 | - | 1.6 | 14.9 | 72.1 | 11.5 |
| Caerphilly | 1.0 | 1.0 | 22.3 | 65.1 | 10.6 | 0.1 | 1.2 | 24.8 | 63.1 | 10.8 | 0.2 | 0.9 | 18.2 | 69.1 | 11.6 |
| Blaenau Gwent | - | 0.7 | 35.3 | 60.8 | 3.3 | - | 0.6 | 46.1 | 50.0 | 3.2 | - | 2.4 | 41.8 | 52.9 | 2.9 |
| Torfaen | 0.1 | 0.6 | 22.3 | 65.1 | 11.9 | 0.1 | 1.3 | 21.8 | 65.0 | 11.8 | - | 0.9 | 15.5 | 71.4 | 12.2 |
| Monmouthshire | 0.5 | 1.1 | 13.0 | 65.8 | 19.6 | 0.5 | 1.0 | 11.9 | 64.3 | 22.4 | 0.5 | 0.9 | 10.9 | 62.6 | 25.1 |
| Newport | 0.3 | - | 31.8 | 59.8 | 8.1 | 0.3 | 0.9 | 28.0 | 62.5 | 8.3 | 0.8 | 0.8 | 20.2 | 69.7 | 8.5 |
| Cardiff | 0.4 | 1.0 | 13.2 | 65.4 | 19.9 | 0.4 | 1.0 | 14.2 | 62.1 | 22.4 | 0.5 | 0.5 | 8.8 | 65.4 | 24.8 |
| **Wales** | **0.9** | **1.2** | **18.1** | **66.2** | **13.6** | **0.9** | **1.1** | **18.4** | **64.4** | **15.3** | **0.7** | **0.9** | **13.9** | **68.0** | **16.4** |

(a) Each test will generally reflect a similar distribution of standardised scores within the set ranges. However, due to the range of marks available and the nature of the tests, results may not present a normal distribution. The data should be used to compare the relative performance of local authorities across years rather than to assess overall performance against a particular indicator.

## Table 8: National Numeracy Test results, by LA and result, 2015

Note: Age-standardised scores provide a measure of relative performance only. Therefore the data in this release should not be used to compare the relative performance across different cohorts a

| | National Numeracy Test - Procedural Component | | | | | | National Numeracy Test - Reasoning Component | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Less than 85 | Between 85 and 115 | Greater than 115 | | Disapplied | Absent during test window | Less than 85 | Between 85 and 115 | Greater than 115 | |
| Local Authority | % | % | % | % | % | Cohort | % | % | % | % | % | Cohort |
| Isle of Anglesey | 1.4 | 1.2 | 10.3 | 70.3 | 16.7 | 5,452 | 1.4 | 1.7 | 9.0 | 67.4 | 20.4 | 5,452 |
| Gwynedd | 1.2 | 1.2 | 10.3 | 68.9 | 18.3 | 9,794 | 1.2 | 1.8 | 7.8 | 65.7 | 23.5 | 9,794 |
| Conwy | 0.5 | 0.9 | 15.3 | 69.6 | 13.8 | 8,790 | 0.5 | 1.5 | 12.1 | 70.4 | 15.6 | 8,790 |
| Denbighshire | 1.7 | 1.8 | 14.0 | 69.8 | 12.7 | 8,897 | 1.7 | 2.5 | 10.8 | 68.6 | 16.4 | 8,897 |
| Flintshire | 1.0 | 1.5 | 12.8 | 70.1 | 14.6 | 13,496 | 1.0 | 2.1 | 9.8 | 70.1 | 16.9 | 13,496 |
| Wrexham | 1.9 | 1.6 | 13.5 | 69.0 | 14.0 | 11,385 | 1.9 | 2.2 | 11.0 | 69.1 | 15.7 | 11,385 |
| Powys | 1.9 | 0.5 | 10.6 | 70.8 | 16.1 | 10,541 | 1.9 | 0.8 | 7.6 | 68.7 | 21.0 | 10,541 |
| Ceredigion | 1.5 | 0.5 | 9.0 | 69.9 | 19.1 | 5,264 | 1.4 | 1.1 | 7.2 | 68.0 | 22.2 | 5,264 |
| Pembrokeshire | 2.0 | 1.1 | 12.4 | 69.9 | 14.6 | 9,932 | 2.1 | 1.8 | 9.2 | 69.4 | 17.5 | 9,932 |
| Carmarthenshire | 1.4 | 0.9 | 9.9 | 68.7 | 19.0 | 15,537 | 1.4 | 1.2 | 8.4 | 68.9 | 20.1 | 15,537 |
| Swansea | 2.1 | 1.1 | 10.1 | 66.4 | 20.3 | 20,072 | 2.1 | 1.3 | 8.3 | 67.7 | 20.6 | 20,072 |
| Neath Port Talbot | 1.6 | 1.4 | 12.9 | 69.0 | 15.1 | 12,012 | 1.6 | 2.0 | 11.6 | 70.6 | 14.2 | 12,012 |
| Bridgend | 1.8 | 0.9 | 12.5 | 67.7 | 17.1 | 12,481 | 1.9 | 1.5 | 10.8 | 68.8 | 17.1 | 12,481 |
| The Vale of Glamorgan | 1.1 | 1.1 | 9.2 | 66.6 | 21.9 | 11,957 | 1.2 | 1.7 | 7.7 | 66.9 | 22.3 | 11,957 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.9 | 1.3 | 15.1 | 68.5 | 13.1 | 21,249 | 1.9 | 1.9 | 12.4 | 70.8 | 13.0 | 21,249 |
| Merthyr Tydfil | 2.3 | 1.2 | 13.7 | 69.7 | 13.2 | 5,152 | 2.3 | 1.9 | 13.1 | 71.1 | 11.6 | 5,152 |
| Caerphilly | 0.8 | 1.1 | 15.8 | 68.6 | 13.7 | 16,250 | 0.8 | 1.4 | 14.5 | 70.7 | 12.6 | 16,250 |
| Blaenau Gwent | 2.2 | 1.7 | 19.1 | 67.8 | 9.2 | 5,507 | 2.2 | 1.9 | 18.4 | 68.9 | 8.7 | 5,507 |
| Torfaen | 1.2 | 1.4 | 16.0 | 68.8 | 12.6 | 8,456 | 1.2 | 2.1 | 14.2 | 69.5 | 13.0 | 8,456 |
| Monmouthshire | 1.8 | 0.8 | 9.9 | 66.0 | 21.6 | 6,791 | 1.8 | 1.0 | 9.2 | 68.2 | 19.8 | 6,791 |
| Newport | 1.7 | 1.5 | 16.1 | 67.8 | 13.0 | 13,685 | 1.6 | 2.2 | 14.9 | 68.9 | 12.3 | 13,685 |
| Cardiff | 1.6 | 1.3 | 13.6 | 65.4 | 18.1 | 29,203 | 1.6 | 1.9 | 12.2 | 67.5 | 16.7 | 29,203 |
| **Wales** | **1.6** | **1.2** | **12.9** | **68.2** | **16.0** | **263,024** | **1.6** | **1.7** | **11.0** | **68.8** | **16.8** | **263,024** |

**Table 9: National Numeracy Test - Procedural: progress measure, by LA, 2013 to 2015 (a)**

| | 2013 | | | | | 2014 | | | | | 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average |
| Local Authority | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Isle of Anglesey | 1.6 | 1.2 | 10.2 | 60.4 | 26.6 | 1.3 | 2.5 | 12.5 | 62.8 | 20.9 | 1.4 | 1.2 | 10.7 | 69.8 | 16.9 |
| Gwynedd | 1.2 | 1.2 | 12.5 | 63.2 | 21.9 | 1.4 | 1.1 | 13.3 | 62.8 | 21.4 | 1.2 | 1.2 | 10.5 | 68.5 | 18.6 |
| Conwy | 1.2 | 1.4 | 19.6 | 62.4 | 15.4 | 1.4 | 1.3 | 18.9 | 62.5 | 15.9 | 0.5 | 0.9 | 15.6 | 68.5 | 14.5 |
| Denbighshire | 2.6 | 1.0 | 14.8 | 65.8 | 15.8 | 2.1 | 2.4 | 17.3 | 63.3 | 15.0 | 1.7 | 1.8 | 14.0 | 69.3 | 13.2 |
| Flintshire | 1.0 | 1.9 | 17.8 | 62.9 | 16.5 | 1.0 | 1.7 | 18.2 | 63.5 | 15.7 | 1.0 | 1.5 | 13.2 | 69.1 | 15.3 |
| Wrexham | 2.6 | 2.3 | 17.4 | 61.1 | 16.6 | 2.1 | 2.0 | 18.8 | 60.9 | 16.2 | 1.9 | 1.6 | 13.9 | 68.3 | 14.3 |
| Powys | 1.3 | 1.0 | 14.3 | 64.7 | 18.6 | 2.0 | 0.9 | 13.4 | 64.7 | 19.0 | 1.9 | 0.5 | 10.7 | 70.2 | 16.7 |
| Ceredigion | 1.2 | 0.7 | 15.0 | 63.1 | 20.1 | 1.9 | 1.3 | 11.8 | 61.2 | 23.7 | 1.5 | 0.5 | 9.2 | 69.3 | 19.5 |
| Pembrokeshire | 1.6 | 1.1 | 16.0 | 64.0 | 17.2 | 1.4 | 1.6 | 15.1 | 62.6 | 19.3 | 2.0 | 1.1 | 12.3 | 69.3 | 15.3 |
| Carmarthenshire | 1.6 | 1.5 | 15.0 | 62.6 | 19.3 | 1.5 | 1.4 | 13.3 | 63.6 | 20.2 | 1.4 | 0.9 | 10.1 | 68.1 | 19.5 |
| Swansea | 1.9 | 1.5 | 16.5 | 60.7 | 19.5 | 1.9 | 1.7 | 14.5 | 60.9 | 20.9 | 2.1 | 1.1 | 10.1 | 65.8 | 20.9 |
| Neath Port Talbot | 1.6 | 1.5 | 18.4 | 62.4 | 16.0 | 1.7 | 1.9 | 16.9 | 63.1 | 16.4 | 1.6 | 1.4 | 13.2 | 68.3 | 15.6 |
| Bridgend | 2.1 | 1.6 | 17.1 | 62.6 | 16.6 | 2.2 | 1.4 | 16.5 | 62.2 | 17.6 | 1.8 | 0.9 | 12.4 | 67.1 | 17.7 |
| The Vale of Glamorgz | 1.1 | 1.2 | 11.4 | 61.8 | 24.5 | 1.3 | 1.3 | 13.2 | 61.1 | 23.1 | 1.1 | 1.1 | 9.2 | 66.1 | 22.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.8 | 1.7 | 18.8 | 62.5 | 15.2 | 1.9 | 1.7 | 21.9 | 61.8 | 12.7 | 1.9 | 1.3 | 15.4 | 68.0 | 13.4 |
| Merthyr Tydfil | 1.9 | 1.1 | 23.4 | 60.7 | 12.9 | 1.9 | 1.2 | 20.3 | 62.7 | 14.0 | 2.3 | 1.2 | 13.7 | 69.2 | 13.7 |
| Caerphilly | 0.8 | 1.9 | 19.9 | 61.5 | 15.9 | 1.0 | 1.3 | 21.5 | 62.3 | 13.9 | 0.8 | 1.1 | 15.9 | 68.0 | 14.3 |
| Blaenau Gwent | 0.9 | 2.1 | 24.6 | 61.3 | 11.1 | 1.5 | 1.5 | 26.6 | 59.6 | 10.7 | 2.2 | 1.7 | 19.3 | 67.6 | 9.2 |
| Torfaen | 0.8 | 2.0 | 20.5 | 62.3 | 14.4 | 1.0 | 2.6 | 20.5 | 62.7 | 13.1 | 1.2 | 1.4 | 16.5 | 67.9 | 12.9 |
| Monmouthshire | 1.0 | 1.0 | 14.0 | 62.4 | 21.6 | 1.2 | 0.8 | 13.7 | 61.8 | 22.6 | 1.8 | 0.8 | 10.0 | 64.8 | 22.6 |
| Newport | 1.6 | 1.7 | 17.7 | 60.2 | 18.9 | 1.8 | 2.6 | 20.5 | 60.7 | 14.5 | 1.7 | 1.5 | 16.6 | 66.9 | 13.4 |
| Cardiff | 0.9 | 1.5 | 18.3 | 59.9 | 19.4 | 1.6 | 1.5 | 18.2 | 60.2 | 18.6 | 1.6 | 1.3 | 13.7 | 64.9 | 18.6 |
| **Wales** | **1.5** | **1.5** | **17.1** | **61.9** | **17.9** | **1.7** | **1.6** | **17.3** | **61.9** | **17.4** | **1.6** | **1.2** | **13.1** | **67.5** | **16.5** |

(a) Each test will generally reflect a similar distribution of standardised scores within the set ranges. However, due to the range of marks available and the nature of the tests, results may not present a normal distribution. The data should be used to compare the relative performance of local authorities across years rather than to assess overall performance against a particular indicator.

## Table 10: National Numeracy Test - Reasoning: progress measure, by LA, 2014 to 2015 (a)

| | 2014 | | | | | 2015 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average | Disapplied | Absent during test window | Below average | Within average | Above average |
| Local Authority | % | % | % | % | % | % | % | % | % | % |
| Isle of Anglesey | 1.3 | 3.1 | 12.2 | 62.1 | 21.4 | 1.4 | 1.7 | 9.4 | 67.1 | 20.4 |
| Gwynedd | 1.5 | 1.9 | 12.1 | 64.0 | 20.5 | 1.2 | 1.8 | 8.1 | 65.5 | 23.4 |
| Conwy | 1.5 | 2.1 | 15.8 | 64.8 | 15.9 | 0.5 | 1.5 | 12.6 | 69.8 | 15.7 |
| Denbighshire | 2.0 | 3.2 | 15.2 | 64.0 | 15.6 | 1.7 | 2.5 | 11.1 | 68.6 | 16.2 |
| Flintshire | 1.0 | 2.8 | 15.0 | 65.0 | 16.1 | 1.0 | 2.1 | 10.3 | 69.7 | 16.9 |
| Wrexham | 2.1 | 2.5 | 16.4 | 63.0 | 16.1 | 1.9 | 2.2 | 11.5 | 68.5 | 15.8 |
| Powys | 2.1 | 1.4 | 12.3 | 63.4 | 20.9 | 1.9 | 0.8 | 7.9 | 68.1 | 21.3 |
| Ceredigion | 1.9 | 1.7 | 10.5 | 61.9 | 23.9 | 1.4 | 1.1 | 7.5 | 67.1 | 22.8 |
| Pembrokeshire | 1.4 | 2.9 | 14.2 | 63.2 | 18.3 | 2.1 | 1.8 | 9.7 | 68.4 | 18.1 |
| Carmarthenshire | 1.6 | 2.1 | 13.3 | 63.8 | 19.3 | 1.4 | 1.2 | 8.9 | 68.0 | 20.6 |
| Swansea | 1.9 | 2.2 | 14.1 | 63.0 | 18.7 | 2.1 | 1.3 | 8.6 | 67.2 | 20.9 |
| Neath Port Talbot | 1.8 | 2.3 | 19.0 | 63.8 | 13.2 | 1.6 | 2.0 | 12.3 | 70.2 | 13.9 |
| Bridgend | 2.2 | 2.3 | 16.8 | 62.3 | 16.3 | 1.9 | 1.5 | 11.2 | 68.1 | 17.3 |
| The Vale of Glamorgan | 1.3 | 1.9 | 12.6 | 64.3 | 20.0 | 1.2 | 1.7 | 8.2 | 66.4 | 22.5 |
| Rhondda Cynon Taf | 1.9 | 2.5 | 21.5 | 62.4 | 11.7 | 1.9 | 1.9 | 13.0 | 69.9 | 13.2 |
| Merthyr Tydfil | 1.9 | 2.9 | 21.9 | 61.9 | 11.4 | 2.3 | 1.9 | 13.7 | 70.8 | 11.4 |
| Caerphilly | 1.0 | 1.9 | 21.7 | 63.0 | 12.3 | 0.8 | 1.4 | 14.9 | 69.9 | 13.0 |
| Blaenau Gwent | 1.5 | 2.3 | 26.1 | 62.1 | 7.9 | 2.2 | 1.9 | 19.2 | 68.0 | 8.8 |
| Torfaen | 1.1 | 3.2 | 20.2 | 63.1 | 12.4 | 1.2 | 2.1 | 14.6 | 69.3 | 12.9 |
| Monmouthshire | 1.1 | 0.8 | 15.0 | 64.6 | 18.5 | 1.8 | 1.0 | 9.9 | 67.4 | 19.9 |
| Newport | 1.8 | 3.0 | 20.6 | 61.8 | 12.8 | 1.6 | 2.2 | 15.5 | 68.0 | 12.6 |
| Cardiff | 1.6 | 2.3 | 18.3 | 61.2 | 16.7 | 1.6 | 1.9 | 12.8 | 66.7 | 17.0 |
| **Wales** | **1.7** | **2.3** | **16.8** | **62.9** | **16.2** | **1.6** | **1.7** | **11.5** | **68.2** | **17.0** |

(a) Each test will generally reflect a similar distribution of standardised scores within the set ranges. However, due to the range of marks available and the nature of the tests, results may not present a normal distribution. The data should be used to compare the relative performance of local authorities across years rather than to assess overall performance against a particular indicator.

**Rhan 4 – Cynllun Gweithredu**

| |
|---|
| Cam Gweithredu â Blaenoriaeth: Blaenoriaeth 1 - Datblygu system o ysgolion sydd yn hunan-wella |
| Maes ffocws: Llythrennedd a Rhifedd |
| Cyfrifoldeb arweiniol: Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (SM) yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (RHH) |

| Deilliant | Camau gweithredu | Amserlen | Adnoddau | Monitro (Pwy a Sut) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arweinwyr sydd â dealltwriaeth drylwyr o berfformiad presennol eu hysgol, yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella, a sut i wneud hynny. | • Datblygu rhaglen hyfforddiant, fydd yn rhan o ddarpariaeth GwE ar gyfer datblygu arweinyddiaeth, fydd yn targedu arweinwyr llythrennedd a rhifedd ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig.<br><br>• Cynnal yr hyfforddiant – un diwrnod y tymor ar gyfer arweinwyr llythrennedd ac un ar gyfer arweinwyr rhifedd. Ffocws i gynnwys:<br>- Data<br>- Adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwella<br>- Monitro cynnydd<br>- Ymyraethau effeithiol<br>- Grwpiau o ddysgwyr | Mehefin 2015<br><br>Hydref/Tachwedd<br>Mawrth 2016<br>Mehefin 2016 | Amser staff<br><br>Amser PC ac Ysgolion CA | Cyfarwyddwr Cynorthwyol (RHH)<br><br>UYHC (SM) | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arweinwyr sydd a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r strategaethau addysgu ac asesu mwyaf effeithiol ac yn gallu arwain a datblygu sgiliau staff eu hysgolion | • Mewnbwn ar yr hyfforddiant gan ysgolion cyd-arweiniol sydd ag arferion rhagorol o ran arweinwyr llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a rhifedd/Mathemateg sydd yn dadansoddi data ac yn cynllunio gwelliant. Astudiaethau achos i gael eu cyhoeddi ar wefan GwE.<br><br>• Mewnbwn gan dîm Partneriaid Cynorthwyol GwE ac ysgolion cyd-arweiniol i'r hyfforddiant. Ffocws i gynnwys:<br>- Asesu ar gyfer dysgu<br>- Cefnogi dysgwyr MATh<br>- Adnoddau effeithiol<br>- Hyfforddi, arwain a chefnogi athrawon a chymorthyddion dosbarth<br>- Monitro addysgu a chraffu ar lyfrau<br><br>• Pecynau o hyfforddiant perthnasol yn cael eu creu gan y PC fydd yn cael eu gosod ar wefan GwE. | Dyddiad cau ceisiadau am y cwrs cynradd: Medi 11eg | | | | | |
| Ysgolion yn rhannu | • YH yn adnabod yr ysgolion a'u | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| blaenoriaethau gwella cyffredin, yn cydweithio ac yn rhannu eu harferion, gyda mewnbwn arbenigol gan y tîm PC neu ysgol gyd-arweiniol os yn briodol.<br><br>Cyd-berthynas agos rhwng asesiad athro a chanlyniadau'r profion cenedlaethol darllen a rhif<br><br>Gwefan GwE yn | cyfeirio i sylw'r grŵp ffocws, fydd yn rhannu'r wybodaeth efo'r UYHC yn ystod cyfarfodydd hanner tymhorol. Bydd yr UYHC yn clustnodi amser gan un o'r PC/ysgol gyd-arweiniol i gyfarfod efo'r rhwydweithiau yma.<br><br>• UYH/YH yn adnabod yr ysgolion ble mae'r bwlch mwyaf rhwng asesiad athro a chanlyniadau'r profion cenedlaethol, ble mae perfformiad yr ysgol yn y profion cenedlaethol ymysg yr isaf yn y rhanbarth, a ble mae'r bwlch mwyaf rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD fwyaf, yn enwedig yn y dangosydd 115+, ac yn targedu cefnogaeth i'r ysgolion yma yn fwy effeithiol, trwy waith y partneriaid cynorthwyol ac ysgolion cyd-arweiniol<br><br>• Ysgolion cydarweiniol GwE yn | Adnabod a sefydlu'r grwpiau yn ystod tymor yr Hydref Cyfarfodydd yn barhaus dros y flwyddyn<br><br>Ionawr 2016 ymlaen | Amser staff<br><br>Amser staff | UYHC (SM) | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| datblygu i fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ac adnoddau i ysgolion y rhanbarth, a thu hwnt.<br><br>Arferion mwyaf effeithiol yn cael eu rhannu ar lefel genedlaethol | paratoi astudiaethau achos o'u harferion mwyaf effeithiol i'w rhannu ar y wefan.<br><br>• Holl adnoddau'r hyfforddiant i arweinwyr llythrennedd a rhifedd ar gael ar y wefan, gan gynnwys y pecynnau ar gyfer hyfforddi staff yn ôl yn yr ysgol.<br><br>• Parhau i gynhyrchu bwletin bob hanner tymor, yn cyfeirio at ddigwyddiadau ac adnoddau o werth yn y maes.<br><br>• Trwy gyfrwng webinarau, rhwydweithiau cenedlaethol a chynhadleddau, rhannu arferion mwyaf effeithiol ysgolion y rhanbarth efo ysgolion o'r rhanbarthau eraill. Yn yr un modd, bydd cyfle i ysgolion GwE i ddod i wybod mwy am arferion effeithiol ysgolion led-led Cymru.<br><br>• Bydd yr UYHC yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd efo uwch | Y rhai cyntaf i fyny erbyn Hydref 23ain<br><br>Yn dilyn yr hyfforddiant<br><br>Yr wythnos cyn diwedd yr hanner tymor | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | swyddogion llythrennedd a rhifedd y 3 rhanbarth arall, yn ogystal â swyddogion LlC, er mwyn rhannu arferion ar lefel strategol. | Medi 14<br>Rhagfyr 14<br>Mawrth 14, 2016<br>Mehefin 14, 2016 | | | | | |

| |
|---|
| Cam Gweithredu â Blaenoriaeth: Blaenoriaeth 2 - Darparu cefnogaeth ddwys i ysgolion penodol sydd angen hynny |
| Maes ffocws: Llythrennedd a Rhifedd |
| Cyfrifoldeb arweiniol: Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (SM) yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (RHH) |

| Deilliant | Camau gweithredu | Amserlen | Adnoddau | Monitro (Pwy a Sut) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anghenion datblygol Llythrennedd/Cymraeg/Saesneg a Rhifedd/Mathemateg pob ysgol oren/coch wedi'i diffinio'n glir o fewn un cynllun gwella, fydd yn cael ei fonitro'n barhaus gan YH. | • Ffurfio grŵp ffocws o YH i gyfarfod yn rheolaidd efo'r UYHC Llythrennedd a Rhifedd a chynrychiolwyr o'r tîm PC, er mwyn rhannu gwybodaeth, adnoddau a chynlluniau.<br><br>• YH y grŵp ffocws yn rhaeadru'n ôl i weddill YH yn | Medi 8/10 2015 a pob hanner tymor wedi hynny | Amser staff | Cyfarwyddwyr Cynorthwyol (RHH ac AJ) | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ystod cyfarfodydd tîm eu hwb ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng yr YH a'r UYHC Ll/Rh<br><br>• YH i sicrhau bod eu hysgolion yn ymwybodol o'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael gan GwE i gefnogi llythrennedd / Cymraeg / Saesneg a rhifedd / Mathemateg a'u bod yn targedu cyllid ac amser i ddatblygu eu staff fel bo angen.<br><br>• YH, gyda chefnogaeth gan yr UYHC Llythrennedd a Rhifedd, aelodau o'r tîm PC a chynrychiolaeth o'r ysgolion cyd-arweiniol, yn monitro'n rheolaidd gynnydd ysgolion oren a choch ym maes llythrennedd/Cymraeg/ Saesneg a rhifedd / Mathemateg gan sicrhau dilyniant pellach ble bo hynny 'n briodol.<br><br>• Cefnogaeth uniongyrchol, | Yn dilyn y cyfarfodydd uchod<br><br>Yn ystod ymweliadau ysgolion | Amser staff | UYHC y 3 hwb<br><br>UYHC y 3 hwb | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | llawr dosbarth ar gael gan aelodau o'r tîm PC/ysgolion cyd-arweiniol mewn achosion penodol, ac ar gais yr YH. Effaith hyn ar ansawdd y ddarpariaeth i gael ei fonito'r ofalus.<br><br>• Sefydlu a chefnogi, ble bo'n briodol, rwydweithiau o ysgolion fydd yn rhannu blaenoriaethau gwella. Hwyluso cyfleoedd iddynt i gydweithio ac i rannu'r arferion mwyaf effeithiol o fewn a thu hwnt i'r rhwydwaith. | | | | | | |